Gwella Cartrefi, Newid Bywydaau.

Care & Repair Cymru

# ADRODDIAD EFFAITH 2023-24

Care & Repair Cymru



# EIN GWELEDIGAETH

**Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartref diogel, cynnes a chyfleus.**

## Y Mudiad Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yng Nghymru yn cynnwys Care & Repair Cymru a 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio. Yn rhoi gwasanaeth i bob cwr o Gymru, mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu ein gwasanaethau wyneb i wyneb gyda phobl hŷn. Care & Repair Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n darparu arbenigedd, arloesedd ac adnoddau.

## Care & Repair Cymru (CRC)

Care & Repair Cymru yw llais cenedlaethol y mudiad Gofal a Thrwsio ac mae ganddo dair prif nod:

1. **Cynrychioli a chefnogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio.** Rydym yn rhoi arweinyddiaeth i'r mudiad, yn cynnwys rheoli'r brand dibynadwy, cefnogi llywodraethiant da, arloesedd, ansawdd a chysondeb gwasanaeth, yn ogystal â rhannu arfer gorau.
2. **Ceisio cynyddu buddsoddiad i wella tai pobl hŷn.** Rydym yn ceisio'n barhaus i ddenu cyllid ar gyfer yr holl fudiad. Drwy gasglu data, ymchwil a gwerthuso, rydym yn gweithio i sicrhau cynyddu buddsoddiad mewn tai pobl hŷn gan gyllidwyr statudol ac elusennol.
3. **Hyrwyddo anghenion tai pobl hŷn.** Rydym yn hyrwyddo a chodi llais ar anghenion tai pobl hŷn, gan ddefnyddio ein tystiolaeth ein hunain a gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddylanwadu ar wella polisi llywodraeth.






# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad gan ein Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr | 3 |
| Y Flwyddyn mewn Rhifau | 5 |
| Astudiaeth Achos: "Fe gafodd Gofal a Thrwsio fi adre" | 6 |
| Amserlen Effaith | 7 |
| Polisi ac Eiriolaeth | 9 |
| Prosiectau | |
| Hynach Nid Oerach | 11 |
| Ysbyty i Gartref Iachach | 12 |
| Ymdopi'n Well | 13 |
| Adolygiad Ariannol | 15 |
| Strategaeth 5 Mlynedd newydd | 17 |
| Ein Tîm Staff | 18 |
| Edrych yn Ôl ar Bum Mlynedd fel Cadeirydd | 19 |
| Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr | 20 |
| Diolchiadau | 21 |


## Codau QR



**Mae codau QR ar gael mewn gwahanol rannau o'r Adroddiad Blynyddol yma. Mae pob un yn cysylltu gyda rhywbeth penodol, tebyg i fideo, lluniau neu fwy o wybodaeth.**

I ddefnyddio cod QR, y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw agor yr ap camera ar eich ffôn. Daliwch eich ffôn fel y gellir gweld y cod QR. Tapiwch yr hysbysiad i agor y ddolen yn gysylltiedig gyda'r cod QR.

# CYFLWYNIAD

## GAN EIN PRIF WEITHREDWR A CHADEIRYDD YR YMDDIRIEDOLWYR

**Gwelwyd galw cynyddol am ein gwasanaethau yn y flwyddyn ddiwethaf wrth i'r wasgfa costau byw effeithio ar lesiant pobl hŷn a'u gallu i gynnal cartrefi.**

Fe wnaeth y biliau tanwydd parhaol uchel hefyd daro ar bobl hŷn yn 2023-24, ac er bod prisiau ynni wedi gostwng ychydig erbyn diwedd y cyfnod, hyd yn oed yn awr mae prisiau ynni 39% yn uwch nag oeddent yn ystod gaeaf 2021/22.

Gwelwyd cynnydd arall flwyddyn-ar-flwyddyn yn y galw am ein gwasanaethau. Mae'r tueddiad hirdymor hwn oherwydd cynnydd enfawr mewn costau llafur a deunyddiau adeiladu, llai o incwm gwario ac anghenion mwy cymhleth gan bobl hŷn – caiff y materion hyn eu hystyried yn llawn yn ein hadroddiad pwysig Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru.

### Blwyddyn o alw cynyddol

Bu cynnydd sylweddol yn y gwasanaethau y gwnaethom eu darparu y llynedd o gymharu â 2022/23, gyda 24% yn fwy o wasanaethau wedi eu darparu i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a chwblhau 10% yn fwy o swyddi gwella cartrefi. Gwelsom hefyd gynnydd o 19% yng ngwerth y gwaith a gwblhawyd a chynnydd o 32% mewn budd-daliadau a sicrhawyd ar gyfer ein buddiolwyr oedd â hawl iddynt.

- Cyflwyno 67,606 o fathau gwasanaeth cyfun i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Cwblhau £21.8 miliwn o waith trwsio a gwella tai ar draws ein holl wasanaethau.
- Cwblhau 60,258 o swyddi.
- Roedd y swyddi hyn yn cynnwys 19,023 fel rhan o'r Rhaglen Addasiadau Brys, yn galluogi pobl i fynd adre o'r ysbyty ac atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty a gofal preswyl.
- Hawlio £12.56 miliwn o fudd-daliadau yn llwyddiannus ar gyfer pobl hŷn ar draws ein holl wasanaethau, gan helpu buddiolwyr i fedru fforddio biliau bwyd, cludiant a thalu biliau ynni a biliau eraill yn well.
- Cefnogi 3,249 o bobl gyda cholled synhwyraidd, strôc a dementia i addasu eu cartrefi a byw'n annibynnol drwy ein gwasanaeth arbenigol Ymdopi'n Well.
- Cefnogi 4,685 o gleifion i fedru mynd adre o'r ysbyty yn gyflymach ac yn ddiogel drwy ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yn cynnwys arbed amcangyfrif o 25,968 o ddyddiau gwely.
- Helpu 135 cleient drwy ein cronfeydd caledi, gan helpu i liniaru tlodi tanwydd, mynd i'r afael â gosodiadau nwy anniogel a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn tai mewn cyflwr gwael. Gwelodd hyn gyfanswm cost gwaith o £173,528, gyda'n cronfeydd caledi yn cyfrannu £37,590.

### Llwyddiant yn sicrhau cyllid

Mae cyllid yn hanfodol i'n gwaith. Felly, roeddem yn hynod falch i Lywodraeth Cymru, drwy gydnabod y pwysau arnom ac effaith ein gwaith, gynyddu cyllid Gofal a Thrwsio gan 6%. Yn ychwanegol, roedd cynnydd o £0.5 miliwn yn ystod cyfnod y gaeaf i gefnogi pobl i fynd adre o ysbyty a buddion ataliol ein Rhaglen Addasiadau Brys ledled Cymru.

Fe wnaethom hefyd sicrhau ffrydiau cyllid rhagorol yn ystod y flwyddyn yn 2023/24 gyda cheisiadau llwyddiannus i:

- Y Loteri Genedlaethol am gronfa caledi £100,000
- Wales & West Utilities am £1.3m o gyllid ar gyfer prosiect tlodi tanwydd dwy flynedd (2024-26) Hynach Nid Oerach. Bydd y prosiect hwn yn ein galluogi i roi mwy o gymorth i gleientiaid sydd mewn tlodi tanwydd, yn byw mewn cartrefi oer ac yn ei chael yn anodd talu biliau ynni.
- £20,000 gan Wales & West Utilities ar gyfer larymau CO arbenigol ar gyfer cleientiaid Ymdopi'n Well sydd â nam synhwyraidd.
- Dros £560,000 gan bump Bwrdd Iechyd i'n galluogi i barhau i gyflwyno ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach llwyddiannus ac effeithlon iawn, allan o 17 prif ysbyty a nifer fawr o ysbytai cymunedol ledled Cymru.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd ennill gwobr bwysig  Effaith Iechyd GSK a Kings Fund. Roeddem yn un o ddim ond deg enillydd o 520 o blith ymgeiswyr trydydd sector yn y Deyrnas Unedig, gan gydnabod effaith ein gwaith ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Roedd y wobr o £40,000, fideos cyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd yn broffesiynol ynghyd â hyfforddiant ar arweinyddiaeth a chyfleoedd rhwydweithio yn dderbyniol iawn.

### Newidiadau trefniadol

Fel sefydliad, cafodd Care & Repair Cymru flwyddyn dda gyda rhywfaint o ad-drefnu rheoli, recriwtio pedwar aelod tîm newydd (gyda chynnydd net o 2.2 mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn) a phedwar ymddiriedolydd newydd.

Mewn partneriaeth agos gydag Asiantaethau Gofal a Thrwsio fe wnaethom ddechrau a gwneud cynnydd gwych gyda manylu system TG newydd, comisiynu cwmni TG a dylunio cronfa ddata newydd ar gyfer y mudiad. Cafodd ein cynlluniau brand eu diweddaru, dechreuwyd a gwnaed cynnydd ar waith ar Strategaeth Pum Mlynedd newydd, cynyddwyd ein proffil yn Senedd Cymru drwy wahanol adroddiadau Pwyllgor a dadleuon a chynnal ein cynhadledd genedlaethol wyneb yn wyneb gyntaf ers mis Medi 2019. Yn dilyn asesiad cawsom ein hailachreduu fel Elusen Ddibynadwy. Yn ariannol, fe wnaethom warged cryf o £75,000 a gaiff ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn heb gyfyngiad, gan helpu i'n gwneud yn fwy cydnerth a'n galluogi i gynllunio sut y gallwn gynyddu ein heffaith a mynd i'r afael â'r angen cynyddol am ein gwasanaethau.

Drwyddi draw, bu'n flwyddyn foddhaol o gyflawni nodau darpariaeth gwasanaeth ar gyfer ein cleientiaid a thyfu fel sefydliad. Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein gwaith yn ystod 2023-24; Asiantaethau Gofal a Thrwsio, Llywodraeth Cymru, partneriaid cenedlaethol a lleol, partneriaid trydydd sector a'n holl gyllidwyr.

Hoffem hefyd dalu teyrnged i dîm staff gwych Care & Repair Cymru am eu gwaith caled a'u hymroddiad ac am wneud cymaint o wahaniaeth i ansawdd bywyd pobl hŷn ledled Cymru.

**Chris Jones**
Prif Weithredwr

**Saz Willey**
Cadeirydd  yr Ymddiriedolwyr





# Y FLWYDDYN MEWN RHIFAU

**67,606**

o wasanaethau unigol wedi'u darparu i bobl hŷn

**£21.8m**

o waith atgyweirio a gwella tai

**60,258**

swydd wedi eu cwblhau

**19,023**

swydd Rhaglen Addasiadau Brys wedi

**£12.5m**

eu cwblhau

o fudd-daliadau nas

**91%**

hawliwyd wedi eu sicrhau ar gyfer pobl hŷn

**96%**

yn dweud wrthym fod eu hannibyniaeth a llesiant wedi gwella

**135**

yn dweud y byddent yn argymell Gofal a Thrwsio i bobl eraill

**£37,590**

cleient wedi eu cefnogi drwy ein cronfeydd caledio gronfeydd caledi



# "FE GAFODD GOFAL A THRWSIO FI ADRE."

## ASTUDIAETH ACHOS

**Bu Gillian Arnold yn gweithio yn y gwasanaeth carchardai am 20 mlynedd cyn iddi gael strôc ym mis Ionawr 2024. Nid mater syml oedd iddi gael mynd adre o'r ysbyty yn ôl i'w bwthyn 100 oed bychan ger Pont-y-pŵl ond gallodd Gofal a Thrwsio wneud y newidiadau oedd eu hangen.**

Esboniodd Gillian yr hyn ddigwyddodd: "Cefais strôc ar 7 Ionawr 2024 ac roeddwn yn yr ysbyty am dri mis. Es i'r gwaith y diwrnod hwnnw a theimlo ychydig yn rhyfedd. Dywedais wrth fy llywodraethwr a chefais fy anfon i'r ysbyty. Yna cefais strôc fawr yn ystod y nos.

"Roedd gen i therapydd galwedigaethol pan oeddwn yn ysbyty ac roedd eisiau lluniau o fy nghartref, felly tynnodd fy merched rai fel y gallai weld. Fe ddywedodd na fyddwn yn cael mynd adre nes bod rheiliau ar y grisiau ac o flaen y tŷ. Felly fe wnaethom nhw drefnu i Gofal a Thrwsio siarad gyda fy merched.

"Roedd popeth wedi ei wneud erbyn i fi fynd adre! Roedd gen i reiliau yn yr ardd, ar y grisiau ac wrth y drws. Roedd gen i godwyr ar fy soffa a sedd gawod wedi'i gosod yn yr ystafell ymolchi. Mae gennyf hefyd sêff allweddi a golau diogelwch wrth fy nrws ffrynt.

"Fe gafodd Gofal a Thrwsio fi adre. Roeddem mewn cysylltiad gyda Donna a roedd hi'n hollol wych."

Donna Coughlin yw Gweithiwr Achos Cartrefi Iachach Gofal a Thrwsio Sir Fynwy a Thorfaen. Dywedodd: "Cafodd Gillian ei hatgyfeirio atom gan ward strôc Ysbyty Ystrad Fawr. Roedd grisiau ochr agored yn ei chartref oedd yn golygu na fyddai'n ddiogel iddi fynd adre.

"Fe gawson ni lawer o offer cymorth a gwaith addasu iddi. Unwaith yr oedd popeth yn ei le gallodd fynd adre ac fe wnes ymweliad dilyn lan yn fuan wedyn.

"Fe wnaeth gymaint o argraff arnaf pan wnes ei chyfarfod hi. Mae gen i gefndir o weithio fel cydlynydd cymorth strôc, felly rwyf wedi cwrdd â llawer o oroeswyr strôc. Mae'n rhagorol fod Gillian wedi ymdopi mor dda a'i bod mor barod i roi cynnig ar y gwasanaethau a'r pethau a fedrai ei helpu.

"Mae ganddi natur mor hyfryd, ac nid yw'n canolbwyntio ar yr hyn na all ei wneud ond ar yr hyn sy'n bosibl iddi. Gofynnodd y nyrsys ar ei ward iddi siarad gyda chleifion strôc eraill ac mae hi mor gadarnhaol am bopeth."

Pan ofynnwyd iddi beth mae'r newidiadau wedi ei olygu iddi, dywedodd Gillian: "Yr effaith yw y gallaf fyw yn fy nhŷ oherwydd fedrwn i ddim fod wedi byw yma, nid oedd dim byd yma. Ni allwn fynd lan y grisiau!"



**Cafodd Cynllun Llysgennad Gofal a Thrwsio ei lansio ym mis Mawrth 2024, a daeth Gillian Arnold ein Llysgennad cyntaf erioed. I ddarllen mwy am y cynllun, ewch i:**
www.careandrepair.org.uk/llysgennad

# AMSERLEN EFFAITH

## Awst 2023
**Sylw ar y Newyddion**
Yn dilyn lansiad ein hadroddiad pwysig 'Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru', siaradodd BBC Cymru gydag un o'n cleientiaid a gyda Chris Jones, ein Prif Weithredwr, i ganfod mwy.

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Gweld yr adroddiad newyddion.**



## Medi 2023
**Cynhadledd Genedlaethol**
Cynhaliwyd cynhadledd wyneb yn wyneb gyntaf Gofal a Thrwsio ers 2019 yng Nghaerdydd. Ymunodd dros 200 o bobl yn y digwyddiad a ymchwiliodd y problemau tai sy'n wynebu pobl hŷn yng Nghymru.






## Tachwedd 2023
**Apêl Blwch Rhodd**
Am y tro cyntaf, ymunodd Gofal a Thrwsio gyda Age Cymru ac Age Connects am apêl Blwch Rhodd Nadolig. Cafwyd blychau gan gymunedau lleol yn ogystal â'n Haelodau Masnachol. Casglwyd cyfanswm o 295 blwch ac yna eu rhoi i bobl hŷn ynysig mewn pryd ar gyfer y Nadolig.

## Ionawr 2024
**Ymgyrch Sgamiau**
Ar ôl i rai o'n cleientiaid gael profiadau ofnadwy gyda masnachwyr twyllodrus, buom yn gweithio gyda Phartneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau i dynnu sylw at y problemau, yn benodol gamwerthu insiwleiddiad chwistrellu ewyn ar gyfer atigau. Cafodd yr ymgyrch hefyd sylw yng nghylchgrawn Which?

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Darllen yr erthygl yn Which?**

## Mawrth 2024
**Enillydd Gwobr GSK IMPACT**
Enillodd Care & Repair Cymru wobr bwysig GSK IMPACT, gan drechu dros 500 o elusennau eraill i gael y wobr. Fel rhan o'r wobr, cawsom £40,000 a chafodd dau fideo ei wneud am ein gwaith.

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Gweld y fideos.**

2024 GSK IMPACT Awards Winner



## Ebrill 2024
**Prosiect Mamwlad yn y Senedd**
Siaradodd Gofal a Thrwsio ym Mhowys ac Age Cymru Powys yn Senedd Cymru am brosiect Mamwlad. Mae'r prosiect unigryw yn cefnogi ffermwyr hŷn ac wedi ymddeol a'r rhai a fu yn y diwydiant ffermio. Caiff y prosiect ei ariannu gan Gronfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.






## Gorffennaf 2024
**Maniffesto Etholiad**
Gyda chynnal etholiad y Deyrnas Unedig, buom yn cydweithio gyda Care & Repair Scotland i ysgrifennu maniffesto etholiad ar gyfer Gofal a Thrwsio yn y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom dynnu sylw at bedwar pheth y credwn fod yn rhaid i lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig eu gwneud i gefnogi pobl hŷn sy'n berchnogion eu cartrefi eu hunain.

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Darllen ein maniffesto etholiad 2024**

# POLISI AC EIRIOLAETH

**Fel pencampwr tai pobl hŷn Cymru, rydym wedi parhau i godi ein llais yn y Senedd a ledled Cymru drwy gynyddu ansawdd ac amlder ein hallbwn ymchwil. Fe wnaethom hefyd ehangu ein tîm gyda recriwtio Swyddog Polisi a Chyllid i gefnogi gwaith y sefydliad ar dlodi tanwydd ac effeithiolrwydd ynni.**

Gwnaed gwaith sylweddol i ddylanwadu ar bolisi llywodraeth, cynrychioli anghenion pobl hŷn a rhannu diweddariadau polisi allweddol ac arfer da gydag Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

## Dadl yn Senedd Cymru

Ym mis Mehefin 2023 cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS ddadl yn y Senedd yn rhoi sylw i'r angen am ein grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer cartrefi mewn cyflwr gwael peryglus. Cafodd y ddadl ei chefnogi gan bob plaid a gynrychiolir yn Senedd Cymru.

## Ein gofyniad am Grant Rhwyd Ddiogelwch yn cael ei dderbyn mewn egwyddor

Argymhellodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru fod Llywodraeth Cymru yn derbyn ein galwad am grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gwael peryglus. Ymrwymodd Julie James AS, oedd bryd hynny'n Weinidog Tai, i dderbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, gan wahodd Gofal a Thrwsio i gyflwyno mwy o dystiolaeth.

## Gwahoddiad i roi tystiolaeth lafar

Fe wnaethom roi tystiolaeth am hygyrchedd a fforddiadwyedd y sector rhent preifat ar gyfer pobl hŷn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, gan arwain at i nifer o'n argymhellion polisi gael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

## Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai

Cawsom ein hethol i rôl ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai yn Senedd Cymru, gan roi cyfle i ddylanwadu ar y materion tai allweddol i gael eu trafod gan Lywodraeth Cymru ar lefel wleidyddol.

## Gwahoddiadau i siarad

Mae Gofal a Thrwsio wedi parhau i adeiladu ein brand fel man hanfodol ar gyfer gwybodaeth ar dai pobl hŷn, gan arwain ar wahoddiadau i siarad mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a chynadleddau cenedlaethol, grwpiau trawsbleidiol a rhwydweithiau rhanddeiliaid tebyg i iechyd a thai, tlodi tanwydd a hygyrchedd.

## Yn ychwanegol, yn 2023-24 fe wnaethom:

- Gyflwyno briffiad wythnosol ar gyfer prif swyddogion asiantaethau i wella ein cyfathrebu a rhannu arfer da ac ymchwil.
- Ymateb i wyth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys y Papur Gwyrdd ar Hawl i Gartref Digonol a Threth Gyngor Decach.
- Ymateb i ddau ymchwiliad gan Senedd Cymru a dau ymchwiliad gan Lywodraeth y DU, yn cynnwys Tasglu Pobl Hŷn Llywodraeth y DU.
- Ehangu ein gwaith polisi ar dlodi tanwydd, yn cynnwys ymateb i bump ymgynghoriad gan Ofgem a datblygu gofynion polisi cynhwysfawr.
- Rhoi tystiolaeth a gwybodaeth fel rhan o Grŵp Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar yr Hawl i Gartref Digonol i ddylanwadu ar gynnwys y papur hwn.

## Cyhoeddi adroddiadau

### Tlodi Pobl Hŷn yn y Gaeaf

Hyd at fis Ebrill 2023 roedd gan Gofal a Thrwsio wasanaeth arbenigol o'r enw 70+ Cymru ar dlodi tanwydd a chyngor ynni. Roedd bron bob cleient a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn byw mewn tlodi tanwydd. Gan ddefnyddio sampl dienw o'n cleientiaid, amcangyfrifodd ein hadroddiad y gwariant cyfartalog ar ynni dros gyfnod tair blynedd ar gyfer cleientiaid Gofal a Thrwsio a ddaeth atom i gael cyngor a chymorth ar effeithiolrwydd ynni.

Hyd yn oed gyda chymorth y Llywodraeth, canfu ein hadroddiad y byddai cleientiaid Gofal a Thrwsio ar gyfartaledd yn gwario 19% o'u hincwm ar gyfleustodau yn ystod gaeaf 23-24. Roedd hyn yn 25% yn y gaeaf blaenorol, pan oedd y cap prisiau yn uchel.

Argymhellodd yr adroddiad ddiwygio taliadau sefydlog, cyflwyno tariff cymdeithasol a rhoddodd dystiolaeth ychwanegol pam fod angen cyflwyno grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer tai mewn cyflwr gwael i wella amodau tai ond hefyd i wella effeithiolrwydd ynni a gostwng biliau.

Wedi ei lansio ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Tlodi Tanwydd, cafodd yr adroddiad sylw cenedlaethol ar y cyfryngau ar-lein a soniwyd amdano yn Senedd Cymru.

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Darllen yr adroddiad**

### O Drawl i Gyflwr Gwael

Tynnodd yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, sylw at effaith tai mewn cyflwr gwael ar bobl hŷn.

Dangosodd ein hymchwil fod achosion o dai mewn cyflwr gwael yn cynyddu ledled Cymru a bod y ffyrdd i'w gwella yn gostwng. Canfu'r adroddiad bod nifer y cleientiaid sy'n dibynnu ar gyllid elusennol i gael atgyweiriadau wedi cynyddu gan 130% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel y dangosodd un astudiaeth achos yn yr adroddiad, gall problemau bach o drawl fel system toiled yn gollwng arwain at ymdreiddiad dŵr, llawr anniogel yn strwythurol a phydru trawstiau os caiff ei adael heb ei ddatrys. Mae tai mewn cyflwr gwael yn cael effaith andwyol ar iechyd a llesiant pobl hŷn sy'n byw yn y cartrefi yma nad ydynt yn ffit i bobl fyw ynddynt.

Fe wnaethom ddefnyddio'r adroddiad i ychwanegu at ein tystiolaeth i gefnogi ein gofyniad am grant rhwyd ddiogelwch i fynd i'r afael â tai mewn cyflwr gwael peryglus fel y gall Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr fod stoc tai Cymru yn addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a chenedlaethau'r dyfodol.

**Sganiwch y cod QR hwn**
**Darllen yr adroddiad**

# PROSIECTAU





## Hynach Nid Oerach

**Ar 1 Ebrill 2024 lansiodd Gofal a Thrwsio wasanaeth Hynach Nid Oerach sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng nghartrefi pobl hŷn ledled Cymru.**

Caiff y prosiect ei arwain gan Reolwr Prosiect yn seiliedig yn Care & Repair Cymru, a chaiff ei gyflwyno yn lleol gan dîm o 12 Swyddog Ynni Cartref yn gweithio yn ein Hasiantaethau. Mae'r Swyddogion hyn yn cyflwyno gwasanaethau rheng flaen i ddarparu gwasanaeth Cymru-gyfan ar dlodi tanwydd. Bydd y tîm yn rhoi cymorth mewn llawer o ddulliau yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ar effeithiolrwydd ynni ac awgrymiadau am newid ymddygiad i ostwng biliau tanwydd
- Argymell a gosod mesurau effeithiolrwydd ynni bach yng nghartrefi cleientiaid
- Codi ymwybyddiaeth o garbon monocsid a hyrwyddo diogelwch CO
- Atgyfeirio cleientiaid at gynlluniau effeithiolrwydd ynni yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, tebyg i Nyth ac ECO4
- Cyfeirio ac atgyfeirio cleientiaid i wasanaethau cymorth eraill tebyg i Cymru Gynnes, Dŵr Cymru ac Age Cymru

Gall Swyddogion Effeithiolrwydd Ynni hefyd gynnig cyngor ar newid tariffau ynni helpu arbed arian a symud nifer fwy o bobl hŷn o wresogi tanwydd ffosil ac i systemau ynni gwyrddach lle'n bosibl. Byddant hefyd yn helpu i gynyddu faint o arian sydd ym mhocedi pobl hŷn drwy roi cymorth gyda cheisiadau am fudd-daliadau a thaliadau unigol tebyg i'r Taliad Tanwydd Gaeaf.

Caiff y prosiect ei ariannu tan 2026 gan gronfa Bregusrwydd ac Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid Wales & West Utilities. Cafodd y gronfa hon ei chreu yn benodol gyda'r nod o gyllido prosiectau sy'n cefnogi cwsmeriaid bregus ac i godi ymwybyddiaeth o beryglon carbon monocsid mewn cartrefi. Rydym yn ddiolchgar i Wales & West Utilities am gyllido Hynach Nid Oerach, a thrwy wneud hynny gefnogi miloedd o bobl hŷn i fyw mewn cartrefi mwy diogel a chynnes ledled Cymru.

Ein gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn trawsnewid bywydau miloedd o bobl hŷn drwy gynnig amrywiaeth o ddulliau cymorth a chwrdd â'r cleient lle maent. Drwy roi gwybodaeth sefydliadau cymorth a chynghorion ar arbed ynni ar gyfer cartrefi i Swyddogion Effeithiolrwydd Ynni, bydd Hynach Nid Oerach yn wasanaeth effeithiol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob person hŷn ar draws Cymru.

**Becky Ricketts**
Rheolwr Prosiect Hynach Nid Oerach



## Ysbyty i Gartref Iachach

**Er gwaethaf hinsawdd economaidd heriol, eleni bu modd i ni gadw'r gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach ym mhob un o'r 17 safle ysbyty ar draws y pump bwrdd iechyd y mae'r gwasanaeth wedi gweithredu ohonynt ers 2019. Oherwydd colli peth cyllid lleol mewn ardal un bwrdd iechyd, gostyngodd nifer y gweithwyr achos o 17 i 14.**

Er hynny, parhaodd y gwasanaeth i dderbyn dros 5,000 atgyfeiriad yn 2023-24, gan arbed dros 24,000 o ddyddiau gwely i GIG Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cyflymu llif cleifion drwy ddatrys problemau tai sy'n atal rhyddhau diogel o ysbytai. Yn ogystal ag arbed dyddiau gwely i'r GIG, mae'r gwasanaeth yn rhoi gwerth ychwanegol i'r GIG drwy ostwng ail-dderbyn i ysbytai, osgoi costau ambiwlans, arbed amser staff clinigol, cefnogi teuluoedd cleifion a galluogi pecynnau o ofal i fynd yn eu blaen.

Eleni, fe wnaethom barhau i weithio gyda thimau gweithredol ysbytai i ymwreiddio perthnasoedd a sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth er gwaethaf gostyngiadau sylweddol i gyllidebau. Fe wnaethom barhau i godi proffil y gwasanaeth mewn mannau strategol perthnasol, tebyg i'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, yn cynnwys cyfrannu at y ddogfen arweiniad Asesydd Dibynadwy a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar ryddhau o ysbytai.



Mae Ysbyty i Gartref Iachach yn parhau i fod â rôl hanfodol wrth gefnogi GIG Cymru drwy sicrhau y gall pobl hŷn fynd adre o'r ysbyty mewn modd diogel ac amserol i gartref a addaswyd i weddu i'w hanghenion a'u adferiad parhaus.

**Faye Patton**
Rheolwr Polisi a Phrosiect



- **14** Gweithiwr Achos Ysbyty i Gartref Iachach
- **436** cais llwyddiannus am fudd-daliadau
- **4,104** o gleifion wedi eu helpu
- **17** Ysbyty
- **£2.2m** o fudd-daliadau lles wedi eu hawlio ar gyfer cleifion
- **24,624** o ddyddiau gwely wedi eu harbed i'r GIG
- **2,592** Gwiriad Cartrefi Iach ar gartrefi cleifion
- **7,561** o welliannau cartref wedi eu cwblhau ar gyfer cleifion
- **98%** yn dweud fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddychwelyd adre a byw'n annibynnol

## Ymdopi'n Well

**Yn 2023-24 cafodd gwasanaeth Ymdopi'n Well effaith sylweddol ar fywydau 3,188 o bobl hŷn ledled Cymru. Dyma'r rhif blynyddol uchaf yn yr wyth mlynedd ers dechrau'r gwasanaeth.**

Mae Ymdopi'n Well yn canolbwyntio ar y rhai gydag anghenion mwy cymhleth: mae 2,163 o'r rhai a gefnogwyd gennym wedi profi colli golwg neu glyw, 455 yn byw gyda dementia a 263 wedi goroesi strôc.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gyfoethogi ansawdd bywyd ein cleientiaid, cynigwyd asesiad o'u hawl i fudd-daliadau i bob unigolyn y gwnaethom ymweld â nhw. Drwy ein hymdrechion fe wnaethom lwyddo i helpu 460 cleient i gynyddu eu hincwm blynyddol gan gyfanswm o £2,222,713 y flwyddyn, neu £4,832 fesul cleient y flwyddyn. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu hincwm gwario a'u llesiant.

### Partneriaeth unigryw

Un o gryfderau allweddol y gwasanaeth Ymdopi'n Well yw ein cydweithio gyda phedair elusen arall amlwg yng Nghymru: RNIB, RNID, Cymdeithas Alzheimer a'r Gymdeithas Strôc. Drwy gyfuno ein cryfderau a'n harbenigedd unigryw, rydym wedi creu gwasanaeth ar y cyd sy'n galluogi ein gweithwyr achos Ymdopi'n Well i ddeall yn drwyadl ac ysgogi'r cymorth ychwanegol a gynigir gan ein partneriaid.

Rydym yn cadw partneriaethau cryf gydag arbenigwyr ailsefydlu golwg a swyddogion cyswllt clinigau llygaid ledled Cymru, gan sicrhau fod ein cleientiaid yn derbyn y gofal gorau posibl. Mae ein cydweithio gyda gwasanaeth Live Well with Hearing Loss, a gaiff bellach ei gydlynu gan ganolfan Sign Sight Sound, wedi gwella yn sylweddol ein dealltwriaeth ac arbenigedd mewn trin colli clyw. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn gosod systemau cylch clywed gan Asiantaethau Gofal a Thrwsio, gan lacio'r baich ar wasanaethau statudol.

Rydym hefyd yn parhau ein gwaith agos gyda Chymdeithas Brydeinig y Byddar (BDA) i sicrhau fod ein gwasanaethau yn hollol hygyrch i unigolion Byddar ledled Cymru y mae Iaith Arwyddion Prydeinig yn iaith gyntaf iddynt.

### Addasu i heriau parhaus

Mae effeithiau COVID-19 yn dal yn amlwg, wrth i wasanaethau statudol ymaflyd gydag ôlgroniad sylweddol, gan arwain at alw cynyddol am y gwasanaeth Ymdopi'n Well. Er yr heriau hyn, mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru wedi dangos proffesiynoldeb ac ymroddiad eithriadol wrth gyflwyno ein gwasanaethau.

Drwy ein hymdrechion ar y cyd, mae gwasanaeth Ymdopi'n Well yn parhau yn ymroddedig i ddarparu cymorth hanfodol a gwella bywydau pobl hŷn ledled Cymru.

*Stephen Thomas*

**Stephen Thomas**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well








- **3,188** o bobl wedi eu helpu
- **2,850** gwiriad Cartref Iach ar gartrefi cleientiaid
- **2,163** cleient gyda cholled synhwyraidd
- **718** o gleientiaid wedi goroesi strôc neu'n byw gyda dementia
- **£1.05m** o weithiau wedi eu cwblhau
- **£127,484** o gyllid dyngarol wedi ei gyrchu ar gyfer cleientiaid
- **£2.2m** o fudd-daliadau lles wedi eu sicrhau ar gyfer cleientiaid
- **904** cleient wedi cael help gyda thechnoleg
- **2,124** atgyfeiriad i sefydliadau eraill


**Sganiwch y cod QR hwn**
**Gweld ein fideos newydd Ymdopi'n Well:**



# ADOLYGIAD ARIANNOL


### Cyfanswm Incwm:  £2,184,720

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 56.7% |
| Byrddau Iechyd Lleol | 22.6% |
| Cyllid Prosiect | 12.4% |
| Cyfraniadau a Rhoddion | 3.4% |
| Incwm Buddsoddi | 1% |
| Cronfeydd Caledi | >1% |
| Arall | 3.2% |



### Cyfanswm Gwariant: £1,957,033


| | |
|---|---|
| Costau Uniongyrchol | 60.3% |
| Costau Staff | 30.1% |
| Costau Swyddfa | 3.3% |
| Costau Cymorth | 3.3% |
| Llywodraethiant | 1.3% |
| Hyfforddiant a Recriwtio | 1% |
| Gwariant Codi Arian | >1% |
| Dibrisiant | >1% |



### Cronfeydd Caledi

### Cyfanswm incwm a gwariant Cronfeydd Caledi: £37,590

| | |
|---|---|
| Loteri Genedlaethol – Costau Byw | 37% |
| Cronfa Diogelwch Nwy | 28% |
| 70+ Cymru | 17% |
| Cronfa Pwysau Gaeaf | 10% |
| Cartrefi Diogel a Chynnes | 6% |
| Cyn Aelodau Lluoedd Arfog | 2% |





# EIN STRATEGAETH BUM MLYNEDD NEWYDD

**Yn Care & Repair Cymru nid ydym yn derbyn y dylai unrhyw berson hŷn:**

- Fyw mewn tŷ anaddas ar gyfer eu hanghenion
- Dioddef afiechyd oherwydd cartref oer a llaith gan na fedrant fforddio'r biliau ynni
- Marw ym misoedd y gaeaf oherwydd eu bod yn byw mewn cartref oer
- Byw mewn tŷ sy'n beryglus neu heb fod yn ffit i bobl fyw ynddo
- Bod heb, neu aros yn rhy hir am addasiadau tai i'w galluogi i fyw'n ddiogel, annibynnol a gydag urddas

**Ein nod yw helpu cynifer o bobl ag y medrwn i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a chyfleus. I wneud hyn dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn gweithio i gyflawni'r wyth amcan strategol ganlynol:**

1. Cynnal a thyfu ffrydiau cyllid cyfredol ac ymchwilio cyfleoedd busnes a phartneriaeth newydd.
2. Gwella ein enw da fel arbenigol, darparydd gofal dewis cyntaf a man rhagoriaeth ar gyfer addasiadau tai.
3. Sicrhau rhagoriaeth mewn casglu, dadansoddi ac adrodd data.
4. Tyfu a gwella ein gwaith ar lais cleientiaid a dirnadaeth.
5. Gwella ein cynnig digidol i gynyddu hygyrchedd, cynhwysiant a chyrraedd ein gwasanaethau a gwybodaeth.
6. Cynyddu ffocws ar recriwtio mewnol, cadw staff a chymwyseddau, yn ogystal â galluedd contractwyr lleol.
7. Ehangu gwasanaethau ar dlodi tanwydd a datgarboneiddio.
8. Ymwreiddio pellach ar lywodraethiant da, sicrwydd ansawdd a diwylliant o ddysgu a gwella.

**Cafodd yr amcanion strategol hyn eu cynhyrchu ar y cyd gyda'n 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio a'u Byrddau. Yn yr un modd, caiff yr amcanion eu gweithredu'n ymarferol dros y pum mlynedd nesaf, gan gydweithio gyda'n Asiantaethau Gofal a Thrwsio.**



# EIN TÎM STAFF

**Chris Jones,**
Prif Weithredwr

**Claire Clarke,**
Cyfrifydd Ariannol

**Louise Parry,**
Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol

**Neil Williams,**
Pennaeth Cefnogi a Datblygu Asiantaethau

**Kennedy Dosomah,**
Swyddog Cefnogi a Datblygu Asiantaethau

**Stephen Thomas,**
Cydlynydd Cenedlaethol, Ymdopi'n Well

**Faye Patton,**
Rheolwr Polisi a Phrosiect

**Jack Bentley,**
Swyddog Marchnata a Datblygu Busnes

**Aleks Chamczynska,**
Swyddog Gweinyddol

**Becky Ricketts,**
Swyddog Polisi

**Adrian Lister,**
Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol

**Robert Green,**
Rheolwr Prosiect Cronfa Ddata

**Claire Fitzgerald,**
Swyddog Ariannu a Phartneriaethau
(ymunodd ym mis Gorffennaf 2023)

**Hannah Peeler**
Swyddog Polisi a Chyllid
(ymunodd ym mis Awst 2023)

**Nia Hockley**
Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol
(ymunodd ym mis Awst 2023)

**David Jones**
Gweinyddwr y Gronfa Caledi
(ymunodd ym mis Medi 2023)

**Elaine Bates**
Cydlynydd Digwyddiadau Allanol
(gadawodd ym mis Mai 2023)



# EDRYCH YN ÔL AR BUM MLYNEDD FEL CADEIRYDD

**Byddaf yn camu lawr eleni ar ôl gwasanaethu am bum mlynedd fel Cadeirydd Care & Repair Cymru. Bu'n gyfnod rhyfeddol.**

Heriau'r pandemig, ac ymateb Care & Repair Cymru, aeth â'r rhan fwyaf o fy amser yn fy mlynyddoedd cynnar, Gan sylweddoli'r help a'r cymorth y byddai pobl hŷn a bregus ei angen, fe wnaethom bopeth a fedrem i gadw ein gwasanaethau ar agor a chyflawni hyn yn ddiogel drwy wneud ceisiadau am gyllid grant ar gyfer offer diogelu personol a llunio canllawiau cenedlaethol ar gyfer arferion gweithio diogel. Mae gennym le dros fod yn falch o'r cymorth a roddwyd gan wasanaethau rheng flaen Gofal a Thrwsio. Nid dim ond gwasanaethau hanfodol i gadw pobl hŷn yn ddiogel yn eu cartrefi, ond gwasanaethau gwahanol tebyg i ddosbarthu presgripsiynau a siopa. Fel mudiad, fe wnaethom ddangos ein bod yn ystwyth, yn medru addasu, cydweithio a bod yn greadigol wrth ganfod datrysiadau a dulliau newydd o weithio.

Pan ddilynodd yr argyfwng ynni a'r argyfwng costau byw yn fuan wedyn fe wnaethom unwaith eto ymateb i'r her. Rhoddodd ceisiadau llwyddiannus I'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Wales & West Utilities gyllid ar gyfer 70+ Cymru, ac yn fwy diweddar, Hynach Nid Oerach. Mae hyn wedi galluogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu mwy o wasanaethau rheng-flaen i helpu pobl sy'n cael trafferthion gyda biliau ynni ac mewn tlodi tanwydd. Rwyf hefyd yn falch tu hwnt o'n gwasanaethau blaengar Ysbyty i Gartref Iachach ac Ymdopi'n Well a'u twf ers 2019. Rydym wedi cefnogi mwy o wasanaethau rheng-flaen drwy brosiectau newydd ac mae rhifau darpariaeth gwasanaeth craidd wedi cynyddu flwyddyn ar flwyddyn.

Daeth Care & Repair Cymru hefyd yn fwy cadarn yn ariannol, gyda chronfeydd wrth gefn rhydd yn fwy na'r hyn rydym eu hangen ar gyfer ymrwymiadau contractiol. Mae'n dda y gall y Prif Weithredwr a'r Bwrdd yn awr cael sgyrsiau am sut i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn rhydd yma i ddatblygu'r sefydliad yn y blynyddoedd nesaf. Mae llywodraethiant da, gwneud y pethau cywir a gwneud pethau'n gywir, yn bwysig iawn i ni. Bu felly yn dda gael cydnabyddiaeth i'r ymroddiad hwn drwy ein hachrediad Elusen Ddibynadwy a Gwobr Effaith GSK a The Kings Fund.

Wrth i mi adael y gadair, gallaf ddweud fy mod yn anhygoel o falch o'r hyn a gyflawnodd y tîm a'r Bwrdd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Rwy'n teimlo iddi fod yn fraint bod yn gadeirydd mewn cyfnod mor ddiddorol ac i fod wedi teithio mor bell gyda thîm mor dalentog ac ymroddedig. Felly, tra byddaf yn cadw golwg ofalus ac yn parhau i fod yno mewn ysbryd, dymunaf lwyddiant parhaus i Care & Repair Cymru yn y dyfodol wrth iddo barhau i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.



**Saz Willey**
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



# EIN BWRDD YMDDIRIEDOLWYR

| | |
|---|---|
| **Sarah Willey** | Cadeirydd |
| **Andrew Vye** | Is-gadeirydd |
| **Fay Satherley** | Trysorydd |
| **Gwynne Jones** | Cynrychiolydd Asiantaethau |
| **Christopher Binding** | Cynrychiolydd Asiantaethau |
| **Elizabeth Warwick** | Wales & West Utilities |
| **Karen Athanatos** | |
| **Neil Bradshaw** | |
| **Clare Strowbridge** | |
| **Sally Davies** | |
| **John Hunt** | |
| **Rhodri Owen** | (ymddiswyddodd ym mis Medi 2023, cyfetholwyd ym mis Medi 2023) |
| **Rhodri Davies** | (ymddiswyddodd ym mis Medi 2023) |

## Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| **Jim McKirdle** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **Sharon Mainwaring** | Is-lywydd Mygedol |

**Sganiwch y cod QR hwn**

**Darganfod mwy am yr hyn a wnaiff ein Hymddiriedolwyr a chyfleoedd i ymuno â'n Bwrdd**

# DIOLCHIADAU

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i bob un o'n partneriaid, cyllidwyr ac aelodau masnachol. Mae'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i gefnogi nifer cynyddol o bobl yng Nghymru ac i eirioli dros fwy o fuddsoddiad ym maes tai pobl hŷn.

## Partneriaid a Chyllidwyr

## Partneriaid Elusennol

## Aelodau Masnachol



Care & Repair Cymru

**www.careandrepair.org.uk**

enquiries@careandrepair.org.uk

**029 2010 7580**

GSK × The King's Fund

2024 GSK IMPACT Awards Winner

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig **(Rhif 1163542)**
ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant **(Rhif 09574555)**.